# EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2022

Eisteddfod

**Rhif 86 – Deuawd Cerdd Dant Bl 10 a dan 19 oed**
'Mae'n Wlad i Mi – Dafydd Iwan

Cainc: Coetmor, Menai Williams (1122) – Ceinciau'r Dyffryn a Mwy, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
**Dylid canu pennill 1, 2 a 3, a chanu'r cytgan fel pennill 4**

## MAE'N WLAD I MI

1 Mi fûm yn crwydro hyd lwybrau unig,
Ar foelydd meithion yr hen Arenig;
A chlywn yr awel yn dweud yn dawel:
'Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi.'

2 Mi welais ddyfroedd Dyfrdwy'n loetran
Wrth droed yr Aran ar noson loergan,
A'r tonnau'n sisial ar lan Llyn Tegid,
'Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi.'

3 Mae tywod euraid ar draeth Llangrannog
A'r môr yn wyrddlas ym mae Llanbedrog;
O ddwfn yr eigion mae clychau'n canu,
'Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi.'

*Cytgan:* 4 Mae'n wlad i mi ac mae'n wlad i tithau,
O gopa'r Wyddfa i lawr i'w thraethau,
O'r De i'r Gogledd,
O Fôn i Fynwy
Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi.